# GREEN GEN TYWI TEIFI
# GREEN GEN TOWY TEIFI

GREEN GEN CYMRU

## Lleisio'ch barn – ymgynghoriad ar agor rhwng 5 Mawrth a 16 Ebrill 2025

**Rydyn ni'n cynnig cysylltiad newydd drwy Geredigion a Sir Gaerfyrddin sy'n helpu i ddod ag ynni glân ac adnewyddadwy i fusnesau a chymunedau, gan ychwanegu'r capasiti lleol sydd ei angen a helpu i ddatblygu rhwydwaith trydan cryfach a mwy cydnerth.**

Rydyn ni wedi diweddaru ein cynigion mewn ymateb i'ch adborth i'n hymgynghoriad cyntaf a'n hasesiadau parhaus. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynllun alinio llwybr drafft manwl, gan gynnwys lleoliadau peilonau arfaethedig.
- Rhannau o waith gosod ceblau o dan y ddaear.

Yr ymgynghoriad hwn yw eich cyfle chi i roi sylwadau a dylanwadu ar sut bydd y prosiect yn parhau i gael ei ddatblygu.

Rydyn ni'n cynnal chwe digwyddiad cymunedol fel rhan o'n hymgynghoriad. Bydd copïau o'r llyfryn a'r ffurflen adborth ar gael. Gallwch hefyd siarad â'n tîm a gweld model 3D digidol o'r cysylltiad.

Ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth a rhoi eich adborth: **www.greengentowyteifi.com**

## Have your say – consultation open 5 March to 16 April 2025

**We are proposing a new connection through Ceredigion and Carmarthenshire that helps bring clean, renewable energy to businesses and communities, adding needed local capacity and helping to develop a stronger, more resilient electricity network.**

We have updated our proposals in response to your feedback to our first consultation and ongoing assessments. These include:

- A draft route alignment including proposed pylon locations.
- Sections of undergrounding.

This consultation is your opportunity to provide comments and shape how the project continues to be developed.

We are hosting six community events as part of our consultation. Copies of the brochure and feedback form will be available. You can also talk to our team and view a digital 3D model of the connection.

Find out more and provide your feedback: **www.greengentowyteifi.com**

### Digwyddiadau yn eich ardal/Events in your area

| Lleoliad/Location | Dyddiad/Date | Amser/Time |
|---|---|---|
| **Eglwys y Bedyddwyr,** Glanduar, Llanybydder, SA40 9RS<br>**Aberduar Baptist Chapel,** Glanduar, Llanybydder, SA40 9RS | 20.03.2025 | 14.00 – 19.00 |
| **Neuadd Goffa Llanpumsaint,** Llanpumsaint, Caerfyrddin, SA33 6BZ<br>**Llanpumsaint Memorial Hall,** Llanpumsaint, Carmarthen, SA33 6BZ | 21.03.2025 | 11:00 – 16:00 |
| **Ysgol Gymuned Peniel,** Peniel, Caerfyrddin, SA32 7AB<br>**Peniel Community School,** Peniel, Carmarthen, SA32 7AB | 22.03.2025 | 10:00 – 15:00 |
| **Canolfan Lles Llambed,** Rhes Ffynnonbedr, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 7BX<br>**Lampeter Wellbeing Centre,** Peterwell Terrace, Lampeter, SA48 7BX | 27.03.2025 | 14:00 – 18:00 |
| **Neuadd Cymuned Llandyfaelog,** Llandyfaelog, Kidwelly, SA17 5PA<br>**Llandyfaelog Community Hall,** Llandyfaelog, Kidwelly, SA17 5PA | 28.03.2025 | 14:00 – 19:00 |
| **Pafiliwn Cymunedol Pencader,** Pencader, Caerfyrddin, SA39 9ER<br>**Pencader Pavillion,** Pencader, Carmarthen, SA39 9ER | 29.03.2025 | 10:00 – 15:00 |

Recipients name to go here

Address Line one
Address Line two
Address Line three

ADD R355

**Mae ein cysylltiad arfaethedig rhwng Parc Ynni Lan Fawr, i'r dwyrain o Landdewi Brefi, Ceredigion, ac is-orsaf newydd y National Grid yn Llandyfaelog, Sir Gaerfyrddin. Byddai'r cysylltiad newydd yn helpu i adeiladu rhwydwaith trydan cryfach a chadarnach i Gymru sy'n datgloi ynni glân ac adnewyddadwy i'n busnesau a'n cymunedau.**


Rydyn ni wedi adolygu eich adborth i'n hymgynghoriad cyntaf ac wedi diweddaru ein cynigion ar sail yr hyn a ddywedoch wrthym, yn ogystal ag asesiadau technegol pellach. Mae ein cynigion diweddaraf yn cynnwys y canlynol:

- Cynllun alinio llwybr drafft newydd ger Cwm-ann i fod ymhellach i ffwrdd o'r cartrefi a'r ysgol gynradd.
- Rhan osod ceblau o dan y ddaear yn ardal Bryn Myrddin i gydnabod ei harwyddocâd diwylliannol a hanesyddol.
- Ail ran o'r gwaith gosod ceblau o dan y ddaear ger is-orsaf Llandyfaelog i helpu i reoli effeithiau gweledol mewn ardal lle mae seilwaith eisoes yn bodoli.
- Cynllun alinio llwybr drafft manwl sy'n dangos y lleoliadau arfaethedig ar gyfer peilonau, sy'n ceisio cadw'r effeithiau mor isel â phosibl ar gymunedau a'r dirwedd – bydd y dyluniad manylach yn rhoi syniad llawer gwell i bobl o sut gallai'r cysylltiad edrych o ble maen nhw'n byw.

**Our proposed new connection is between the Lan Fawr Energy Park located east of Llanddewi Brefi, Ceredigion and a new National Grid substation at Llandyfaelog, Carmarthenshire. The new connection would help build a stronger, more resilient electricity network for Wales that unlocks clean, renewable energy for our businesses and communities.**

We have reviewed your feedback to our first consultation and updated our proposals based on what you told us, and further technical assessments. Our latest proposals include:

- A new draft route alignment near Cwmann to be further away from the homes and the primary school.
- A section of undergrounding in the Merlin's Hill area in recognition of its cultural and historical significance.
- A second section of undergrounding near to Llandyfaelog substation to help manage visual effects in an area where there is already existing infrastructure.
- A draft route alignment showing proposed locations for pylons, seeking to keep effects as low as we can on communities and the landscape – the more detailed design will give people a much better sense of what the connection could look like from where they live.




## Edrychwch ar ein llwybr

Sganiwch y cod QR i weld map manwl o'r cynllun alinio llwybr drafft arfaethedig.

## View our route

Scan the QR code to see a detailed map of the draft route alignment.

## Rhoi eich adborth

Gallwch chi ddylanwadu ar ddyluniad y cysylltiad o hyd – rydyn ni'n gofyn i bobl am adborth er mwyn i ni allu parhau i edrych ar ffyrdd o leihau'r effeithiau.

- Llenwch ffurflen adborth ar ein gwefan neu gofynnwch am un gan ein tîm drwy ffonio **0800 915 2496**
- Anfonwch e-bost atom yn **info@greengentowyteifi.com**
- Ysgrifennwch atom yn **RHADBOST Green GEN Cymru TT**

## Submit your feedback

The design of the connection is still open to influence – we're asking people to give us their feedback so we can continue to look at ways to keep effects as low as we can.

- Complete a feedback form on our website or request one from the team by calling **0800 915 2496**
- Email us at: **info@greengentowyteifi.com**
- Write to us at: **FREEPOST Green GEN Cymru TT**